



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar
Ysgol Dyffryn yr Enfys

Ffordd Llanrwst
Dolgarrog
Conwy
LL32 8QE

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o roi cynnig ar ein trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddus eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.

Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn yr Enfys

Enw'r darparwr	Ysgol Dyffryn yr Enfys
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Iaith y darparwr	Cymraeg
Cymeriad crefyddol	Ddim yn berthnasol
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	107
Disgyblion o oedran ysgol statudol	85
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	13
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	22.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	10.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	32.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (categoriâu A-C)	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2019
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	Ddim yn berthnasol
Dyddiad dechrau'r arolygiad	30/04/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae arweinwyr Ysgol Dyffryn yr Enfys wedi sefydlu gweledigaeth ac ethos cadarn yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu ysgogol a chyfoethog sy'n hybu disgyblion i ffynnu ac ymgolli yn eu dysgu. Mae gan y tîm cydwybodol o staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn cydweithio'n ddiwyd i ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau'r lles a chynnydd gorau posibl ar gyfer pob disgybl.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol sy'n symud y dysgu yn ei flaen yn llwyddiannus. Maent yn meithrin perthynas weithio dda â disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion yn dda. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Mae'r profiadau dysgu diddorol a chyfoethog yn hybu datblygiad medrau llythrennedd a digidol disgyblion yn bwrpasol, ac maent yn cymhwyso eu medrau'n hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau siarad Cymraeg disgyblion yn gryfder amlwg. Defnyddir cyfleoedd cyson i gyfoethogi iaith y disgyblion yn bwrpasol ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg medrus. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd dros amser. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau data yn llawn.

Mae arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn barhaus ac yn ymateb yn gadarn i agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryf. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth yn fuan ac yn darparu rhaglenni cefnogi amserol. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni er mwyn monitro cynnydd ac adnabod y camau nesaf yn y dysgu.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

- A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau data
- A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut y maent yn cyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Mae Ysgol Dyffryn yr Enfys yn nodedig am ei hawyrgylch hyfryd ble mae sicrhau lles a chynnydd pob disgybl yn flaenoriaethau parhaus. Mae'r amgylchedd dysgu hynod ddeniadol yn hybu disgyblion i lwyr ymgolli yn eu dysgu a ffynnu o fewn y gymuned hapus sy'n llawn bwrlwm. Mae ymddygiad disgyblion yn ardderchog ac maent yn ymdrin â'i gilydd â pharch, cwrteisi ac anwylddeb canmoladwy. Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos o ddiogelu yn llwyddiannus ac mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel wrth eu gwaith a'u chwarae. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol a'r gefnogaeth a'r cyfleoedd a gânt.

Mae'r pennaeth yn arweinydd cadarn, cydwybodol ac ysbrydoledig. Mae ganddi weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu diddorol a chyfoethog sy'n tanio dychymyg ac ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn gelfydd. Ers i Ysgol Dyffryn yr Enfys gael ei sefydlu, mae'r pennaeth wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac ymgorffori'r egwyddorion ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Cefnogir y pennaeth gan dîm ymroddgar o staff sy'n cydweithio'n ddiwyd er mwyn sefydlu awyrgylch dysgu ysgogol sy'n canolbwyntio ar hybu'r lles a'r cynnydd gorau ar gyfer pob disgybl. Mae staff wedi mabwysiadu gweledigaeth a disgwyliadau uchel y pennaeth i sicrhau bod ymdeimlad clir o bwrpas a diwylliant o wella'n barhaus yn rhan annatod o waith yr ysgol.

Rhoddir bri ar hybu lles pob disgybl. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a chysurus yn yr ysgol ac yn hapus i rannu unrhyw ofidiau sydd ganddynt gyda'u cyfoedion neu staff. Mae disgyblion y dosbarth meithrin, er enghraifft, yn defnyddio'r ardal bwrpasol i rannu eu teimladau a'u hemosiynau wrth gyrraedd y dosbarth yn y bore. Mae hyn yn galluogi staff i adnabod unrhyw bryderon yn fuan a chynnig cefnogaeth briodol, yn ôl yr angen. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion ac maent yn ymdrin â'r disgyblion gydag empathi a thegwch. Maent yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion ystyried agweddau moesegol a chymdeithasol ynghyd ag ystyriaeth deg i'w credoau personol. Mae disgyblion yn ymateb yn hynod gadarnhaol i'r gefnogaeth barhaus ac, o ganlyniad, mae eu hymddygiad a'u hagweddau at ddysgu, bron heb eithriad, yn ardderchog.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn eu hamser yn yr ysgol gyda medrau iaith a chymdeithasol islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. O ganlyniad i addysgu cadarn ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu dros amser. Mae gan athrawon ddyheadau uchel ar gyfer pob disgybl ac maent yn gosod amcanion clir i'r dysgu. Maent yn sefydlu perthynas weithio effeithiol â disgyblion yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch dwyffordd. O ganlyniad, mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion unigol, ac yn eu diwallu'n bwrpasol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynnig adborth buddiol sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a sut i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r adborth a roddir ac yn gwneud gwelliannau priodol i'w gwaith.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Darperir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gyfrannu syniadau a chwestiynau am yr hyn yr hoffent ei ddarganfod a'i

ddysgu ar ddechrau ac yn ystod eu themâu wrth i syniadau newydd ddod i'r amlwg. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion synnwyr cryf o berchnogaeth o'u profiadau ac maent yn ymroi'n frwdfrydig i'w gweithgareddau. Er hyn, at ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau siarad Cymraeg disgyblion yn gryfder amlwg.

Cameo

Darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion

Mae staff yn cyfathrebu â'r disgyblion gan ddefnyddio Cymraeg graenus ac maent yn angerddol a brwdfrydig wrth drochi disgyblion yn yr iaith. Maent yn hybu adnabyddiaeth y disgyblion o eirfa a phatrymau iaith gyffredin trwy ganu hwiangerddi a chaneuon yn gyson. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus; er enghraifft, maent yn defnyddio ystum corff ac yn amrywio goslef eu llais yn hyderus wrth ailadrodd hanes y tri mochyn bach yn ardal byd bach. Defnyddir cyfleoedd cyson fel 'idiom yr wythnos' i gyfoethogi iaith y disgyblion yn bwrpasol ac, o ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn siaradwyr medrus sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u gallu i siarad Cymraeg.

Mae staff yn darparu cwricwlwm diddorol ac ysgogol sy'n hybu datblygiad medrau llythrennedd a digidol disgyblion yn llwyddiannus. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion sy'n cefnogi'r rhan fwyaf ohonynt i wneud cynnydd cryf. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen yn rhugl ac yn defnyddio strategaethau pwrpasol wrth ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ieuengaf arbrofi wrth greu marciau ac arbrofi ag ystod o ffurfiau. Mae hyn yn ei dro yn cymell disgyblion i ddatblygu'n awduron hyderus dros amser. Wrth i athrawon gefnogi datblygiad medrau ysgrifennu disgyblion, mae disgyblion Blwyddyn 3, er enghraifft, yn ysgrifennu dyddiaduron diddorol ac yn cynnwys geirfa ddychmygus i gyfleu teimladau personol a ddangos empathi tuag at Jac o stori Jac a'r Goeden Ffa.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg dros amser ac yn cymhwyso'r ystod o fedrau rhifedd yn hyderus mewn cyd-destunau diddorol ac ymarferol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn dewis offer priodol a dulliau addas i gyfrifo arwynebedd eu dosbarth. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dadansoddi data yn ddigon effeithiol dros amser.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag ADY yn un o gryfderau nodedig yr ysgol. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth yn fuan ac yn darparu rhaglenni cefnogi pwrpasol yn amserol. Mae'r sesiynau cefnogi unigol wedi eu cynllunio'n ofalus ac yn diwallu anghenion penodol disgyblion yn werthfawr. Mae staff yn cymell a chanmol disgyblion yn feistrolgar wrth eu cefnogi i ddatblygu eu medrau ysgrifennu, er enghraifft. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at godi hunanhyder disgyblion i ddysgu ac yn hybu eu gwydnwch a'u disgwyliadau personol yn llwyddiannus. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni i fonitro cynnydd a thrafod y camau nesaf yn y dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o ystod eang o asiantaethau allanol, fel y therapydd iaith ac arbenigwyr maethu, i gyfoethogi'r ddarpariaeth

ymhellach. Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr yn cychwyn yn y meithrin ac yn parhau trwy'r ysgol ac, o ganlyniad, yn cyfrannu at y cynnydd cryf a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth benodol gyda'u dysgu.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer monitro ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn dadansoddi'r wybodaeth o'r gweithgareddau monitro yn ofalus ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Un cryfder amlwg o fewn y trefniadau hyn yw'r modd y mae arweinwyr yn talu sylw amserol i agweddau sydd angen eu gwella. Er enghraifft, yn dilyn gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion, mae'r ysgol wedi darparu cefnogaeth benodol ar fyrder i gefnogi disgyblion ar draws yr ysgol i wella eu medrau codio.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol â rhieni, y gymuned ehangach ac ysgolion lleol. Mae disgyblion yn frwdfrydig am y cyfleoedd i ymweld â chlwb lleol ar gyfer trigolion hŷn yr ardal i sgwrsio a rhannu profiadau. Maent yn adeiladu ar y berthynas yn bwrpasol wrth wahodd y trigolion i'r ysgol am bicnic a chael cyfle i fwynhau paned a'r ffyn ffrwythau sydd wedi eu paratoi'n ofalus gan y disgyblion.

Mae cydweithio effeithiol ag ysgolion lleol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff o wahanol agweddau o'r addysgu a dysgu. Er enghraifft, mae athrawon yn cydweithio â staff o ysgolion eraill i ddatblygu crynodeb o ddisgwyliadau ar gyfer cynnydd disgyblion mewn mathemateg ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Mae hyn yn hybu staff i ehangu eu dyheadau ac i rannu arferion effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt gydnabyddiaeth addas o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Er hyn, nid yw holl aelodau'r corff yn craffu'n ddigon cyson wrth werthuso ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniadau'r disgyblion. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth i ymateb yn gadarn i heriau sy'n wynebu'r ysgol. Maent yn ymateb yn bwrpasol i sicrhau'r defnydd pwrpasol o gyllid ac adnoddau'r ysgol.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri unrhyw bryder

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rhieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. 'y rhan fwyaf o ddisgyblion...' neu 'ychydig iawn o ddisgyblion...'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).